Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG52266**

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

## Adolygiad o Ddyletswydd Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

Dyddiad cyhoeddi: 25 Gorffennaf 2025

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 17 Hydref 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx

## Trosolwg

O dan Reoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol asesu'r galw am ofal plant a'i argaeledd bob pum mlynedd drwy'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) a gwmpesir o dan adran 26 o Ddeddf Gofal Plant 2006.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu cynnig ar gyfer datblygu ADGPau yng Nghymru yn y dyfodol ac yn ceisio barn am sut y gellir gwella proses a chynnwys yr ADGP a'i wneud yn addas at y diben er mwyn diwallu anghenion pob rhanddeiliad.

## Sut i ymateb

Gall rhanddeiliaid ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy ateb cwestiynau'r ymgynghoriad sydd yn y ddogfen hon. Mae'r cwestiynau wedi'u hanelu at ymarferwyr a llunwyr polisïau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, sydd naill ai'n ymwneud â chynnal yr ADGPau neu y mae eu maes polisi yn rhyngweithio â'r ADGPau. Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn ceisio barn y rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gofal plant neu sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector gofal plant e.e. darparwyr (darpar ddarparwyr a rhai presennol) a'r rhai sy'n elwa ar y gofal plant a gynigir e.e. rhieni, gofalwyr a chyflogwyr.

Gallwch gyflwyno eich ymateb erbyn **17 Hydref 2025** yn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Cwblhau ein ffurflen ar-lein

- Lawrlwytho a chwblhau ein ffurflen ymateb a'i hanfon drwy e-bost i:
  blynyddoeddcynnar@llyw.cymru

- Lawrlwytho a chwblhau ein ffurflen ymateb a'i hanfon drwy'r post i:

Adolygiad o'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant
Is-adran y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Gellir dod o hyd i ddogfennau'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru yn: Adolygiad o Ddyletswydd Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) | LLYW.CYMRU

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: blynyddoeddcynnar@llyw.cymru

This document is also available in English: Review of the Childcare Sufficiency Assessment (CSA) Duty on Local Authorities | GOV.WALES

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd rheolydd data ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru ac unrhyw ddata personol y byddwch yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

Bydd Gweinidogion Cymru yn dibynnu ar y pwerau statudol sydd ganddynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau hyddysg am y ffordd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Mae'r sail gyfreithiol dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yn rhan o'n tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i gyflawni rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Erthygl 6(1)(e))

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy’n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol, Yn achos ymgyngoriadau ar y cyd, gall hyn hefyd gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gellir comisiynu'r gwaith hwn i'w gwblhau gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract y caiff unrhyw waith o'r fath ei wneud. Mae amodau a thelerau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth ichi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu dileu cyn cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gall fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna caiff yr adroddiadau hyn a gyhoeddir eu cadw am gyfnod amhenodol. Fel arall, bydd unrhyw ddata a ddelir gan Lywodraeth Cymru amdanoch yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a ddelir amdanoch chi a'u gweld
- i’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn i'ch data gael eu 'dileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r defnydd a wneir ohoni, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Mae manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

**Cynnwys**


1. Cefndir ....... 7
2. Cyflwyniad ....... 8
3. Diben yr Ymgynghoriad ....... 9
4. Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant – Y sefyllfa bresennol ....... 11
   - 4.1 Deddfwriaeth ....... 11
   - 4.2 Canllawiau ....... 12
   - 4.3 Adolygiad Annibynnol Allanol ....... 13
   - 4.4 Gweithgor yr ADGP ....... 13
   - 4.5 Is-grŵp Data ....... 14
   - 4.6 Digwyddiad Cyn Ymgynghori ....... 14
5. Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant – Materion a Chynigion ....... 14
   - 5.1 Y Cylch Cynllunio a'r Broses ....... 15
   - 5.2 Ffynonellau Data, Ffynonellau Gwybodaeth a Dadansoddi ....... 18
   - 5.3 Gofynion Rheoliadol a Dogfennaeth Ategol ....... 22
   - 5.4 Asesiad Effaith Integredig Drafft ....... 23
   - 5.5 Canllawiau Statudol ....... 24
   - 5.6 Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Anabledd ....... 26
   - 5.7 Y Gymraeg ....... 27
   - 5.8 Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ....... 28
   - 5.9 Barn gyffredinol am yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ....... 28
6. Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad sydd wedi'i hanelu Ymarferwyr a Llunwyr Polisïau yn bennaf (rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sydd naill ai'n ymwneud â chynnal yr ADGPau neu y mae eu maes polisi yn rhyngweithio â nhw e.e. trafnidiaeth, iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, y gymuned a'r economi) ....... 28
7. Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad ar gyfer Rhieni/Gofalwyr (darpar rieni/gofalwyr a rhai presennol) ....... 38
8. Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad ar gyfer Darparwyr Gofal Plant (darpar ddarparwyr a rhai presennol) ....... 41

## 1. Cefndir

Mae gofal plant yn llawer mwy na rhywle y mae rhieni/gofalwyr yn gadael eu plant pan fyddant yn y gwaith neu'n ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant. Mae iddo fuddion pellgyrhaeddol eraill, sy'n canolbwyntio ar y teulu cyfan ac sy'n ehangach o ran y cyfraniad y mae'n ei wneud at lesiant cyffredinol, datblygiad plant, yr economi ehangach a dileu tlodi.

O dan Adran 26 o Ddeddf Gofal Plant 2006, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol asesu'r galw am ddarpariaeth gofal plant leol yn eu hardaloedd, a'i hargaeledd, yn rheolaidd.

Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016 ('y Rheoliadau'), a wnaed o dan Adran 26 o'r Ddeddf, yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i baratoi Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (ADGPau). Mae'n nodi'r broses a'r wybodaeth y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ei hystyried a'i chynnwys yn eu hasesiadau.

Mae gofal plant yn drawsbynciol ei natur ac, am y rheswm hwn, mae'n rhyngweithio ag amrywiaeth o feysydd polisi, e.e. trafnidiaeth, iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, y gymuned a'r economi. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn gan bobl o bob un o'r meysydd polisi hynny sydd naill ai'n effeithio ar y gwaith o gynllunio a rheoli digonolrwydd darpariaeth gofal plant yng Nghymru, neu'n cyfrannu ato. Byddem hefyd yn croesawu barn y cyhoedd, gan gynnwys rhieni a gofalwyr a hoffai ddefnyddio gofal plant.

Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn ceisio barn y rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gofal plant neu sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector gofal plant e.e. darparwyr (darpar ddarparwyr a rhai presennol) a'r rhai sy'n elwa ar y gofal plant a gynigir e.e. rhieni, gofalwyr a chyflogwyr.

## 2. Cyflwyniad

Mae mynediad at addysg gynnar a gofal plant o ansawdd uchel yn hollbwysig, a hynny o ran sicrhau'r canlyniadau addysg ac iechyd gorau i blant a galluogi rhieni i achub ar gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth. Mae angen i ddarpariaeth gofal plant fod yn hygyrch/hyblyg, o safon uchel, ar gael ar yr adegau ac yn y lleoedd y mae ei hangen, ar gael i blant o oedrannau, cefndiroedd, diwylliannau a galluoedd gwahanol ac sydd ag anghenion gwahanol, ac mae angen ei hyrwyddo mewn ffordd sy'n sicrhau bod darparwyr gofal plant a rhieni yn gallu manteisio i'r eithaf ar y gofal plant a ariennir sydd ar gael.

Mae ADGPau yn galluogi Awdurdodau Lleol i fesur natur a graddau'r angen am ofal plant, a'r gofal plant a gyflenwir, yn eu hardal. Eu nod yw helpu i nodi lle mae bylchau yn y farchnad ac, mewn ymgynghoriad â rhieni, cymunedau a chyflogwyr, gynllunio sut i gefnogi'r farchnad er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau hyn. Mae ganddynt rôl allweddol i'w chwarae wrth helpu Awdurdodau Lleol i asesu a rheoli digonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn un o elfennau craidd yr asesiad digonolrwydd gofal plant. O dan y ddyletswydd i sicrhau darpariaeth gofal plant ddigonol, mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant sy'n cael gwared ar y diffygion ac yn cynnal y cryfderau a nodwyd yn yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant, ac i roi'r cynlluniau hynny ar waith.

Mae gweddill y ddogfen hon wedi cael ei strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Adran 3 yn nodi diben yr adolygiad.
- Mae Adran 4 yn esbonio ein sefyllfa bresennol, gan gynnwys y cefndir deddfwriaethol, y canllawiau presennol ar yr ADGP, trosolwg o adolygiad annibynnol allanol a gynhaliwyd gan Ymchwil Arad, a chamau a gymerwyd i lywio'r ymgynghoriad hwn.

- Mae Adran 5 yn amlinellu'r materion a nodwyd ac yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella proses yr ADGP.

- Mae Adran 6 yn cynnwys cwestiynau'r ymgynghoriad a'r ffurflen ymateb.

Mae'r Atodiadau canlynol wedi'u darparu hefyd a chyfeirir atynt yn y ddogfen hon:

- Atodiad A - Canllawiau Statudol Cyfredol
- Atodiad B - Rheoliadau Diwygiedig Drafft
- Atodiad C - Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft
- Atodiad D - Asesiad Effaith Integredig

## 3. Diben yr Ymgynghoriad

Fel y nodir yn adran 4 isod, mae ymarfer adolygu ac ymgysylltu cynhwysfawr mewn perthynas ag effeithiolrwydd proses bresennol yr ADGP wedi cael ei gynnal. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau ac yn ceisio gwybodaeth a fydd yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu Canllawiau Statudol diwygiedig (mae'r Canllawiau Statudol cyfredol yn Atodiad A) er mwyn cyflawni'r nodau canlynol:

- sicrhau bod ADGPau yn addas at y diben ar gyfer y dyfodol;

- sicrhau bod cwblhau'r asesiad yn rhoi cyn lleied o faich â phosibl ar Awdurdodau Lleol;

- cysoni ac integreiddio'n well â phrosesau cynllunio ac asesu allweddol eraill ar lefel leol a chenedlaethol;

- sicrhau bod gwybodaeth ar gael ynglŷn â digonolrwydd gofal plant gan gynnwys y materion, yr heriau a'r rhwystrau, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau a rhaglenni cenedlaethol a darparu darlun o'r ddarpariaeth ar lefel Cymru gyfan;

- sicrhau y darperir gwybodaeth berthnasol ac amserol i helpu Awdurdodau Lleol i gynllunio ar gyfer digonolrwydd gofal plant er

mwyn llywio strategaethau a pholisïau lleol, gan gynnwys y rhai a gaiff eu darparu gan bartneriaid a sefydliadau rhanddeiliaid;

- sicrhau bod rhieni, gofalwyr, darparwyr gofal plant, cyflogwyr, plant a phobl ifanc yn cael sicrwydd, cyn belled ag y bo modd, fod gofal plant digonol ar gael yn eu hardaloedd.

Bydd yr adborth a ddarperir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio'r canlynol:

- fformat, cynnwys, proses a chylch cynllunio'r ADGPau;

- newidiadau neu welliannau i'r Canllawiau Statudol er mwyn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau;

- yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi datblygiad yr ADGP.

Mae dull mwy cymesur o gynnal ADGPau yn cael ei gynnig, er mwyn arwain at asesiad sy'n fwy perthnasol, syml ac effeithlon. Fel rhan o hyn, caiff lefel y manylder sydd angen ei chynnwys ym mhob ADGP yn ôl y Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol ei lleihau a'i hadolygu, yn enwedig mewn perthynas ag elfennau cyflenwad gofal plant a'r galw amdano, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn berthnasol ac yn ystyrlon. Bydd y gofynion newydd yn fwy cydnaws â'r ffynonellau data sydd ar gael, gan hwyluso asesiad mwy cadarn a chymesur. Ymhlith y newidiadau allweddol i broses yr ADGP mae'r canlynol:

- Newid y dyddiad cyflwyno o 31 Mawrth i 30 Mehefin 2027 er mwyn cyd-fynd â'r cylch cynllunio presennol a sicrhau parhad (oherwydd pandemig COVID-19, cyflwynwyd canllawiau atodol i Awdurdodau Lleol yn estyn y cyfnod i 30 Mehefin, ac mae rhanddeiliaid wedi nodi bod yn well ganddynt y dyddiad cyflwyno ym mis Mehefin).

- Parhau gyda'r cylch pum mlynedd, yr adroddiadau cynnydd blynyddol a'r cynlluniau gweithredu (a chyflwyno cyfarfodydd monitro blynyddol fel rhan o'r Canllawiau Statudol er mwyn cael darlun mwy cyfredol o'r ddarpariaeth gofal plant ledled Cymru, a'r camau a gymerir gan Awdurdodau Lleol i sicrhau digonolrwydd).

- Datblygu dull mwy cymesur o ymgynghori â rhanddeiliaid yn seiliedig ar ddemograffeg y boblogaeth leol.

- Dileu'r gofyniad i asesu rhai setiau data nad ydynt ar gael ar hyn o bryd.

- Annog y defnydd o ddata presennol i ddatblygu mesurau procsi i'w defnyddio fel ffordd o ddarparu asesiad mwy cadarn.

- Ystyried gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau, gan ymgorffori gwybodaeth ansoddol a meintiol, ac adeiladu ar systemau data presennol, arolygon a gwybodaeth leol er mwyn darparu asesiad mwy ystyrlon.

- Darparu Canllawiau Statudol cliriach er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder o ran diffiniadau a chynnwys yr ADGP.

## 4. Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant – Y sefyllfa bresennol

### 4.1 Deddfwriaeth

Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016 (‘y Rheoliadau’), a wnaed o dan Adran 26 o Ddeddf Gofal Plant 2006, yn nodi'r gofynion ar gyfer ADGPau, a gaiff eu crynhoi isod:

- Mae Rheoliad 1 yn nodi teitl y Rheoliadau a phryd y byddant yn dod i rym.

- Mae Rheoliad 2 yn nodi'r diffiniadau ar gyfer y geiriad yn y Rheoliadau.

- Mae Rheoliad 3 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i gynnal asesiadau digonolrwydd gofal plant.

- Mae Rheoliad 4 yn nodi gofyniad i gynllun gweithredu gael ei baratoi fel rhan o asesiad yr Awdurdod Lleol.

- Mae Rheoliad 5 yn cyflwyno'r Atodlen sy'n rhagnodi'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn yr asesiad.

- Mae Rheoliadau 6 a 7 yn rhagnodi'r personau y gallai Awdurdodau Lleol ystyried ymgynghori â nhw a'r personau y mae'n rhaid iddynt ymgynghori â nhw wrth baratoi'r asesiad.

- Mae Rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol roi cyfle i'r personau yr ymgynghorwyd â nhw wneud sylwadau ar yr asesiad drafft cyn ei gyhoeddi.

- Mae Rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddiwygio'r asesiad drafft mewn ymateb i unrhyw sylwadau a geir gan y personau yr ymgynghorwyd â nhw.

- Mae Rheoliadau 10 ac 11 yn ymdrin â'r gofyniad i gyhoeddi'r asesiad drafft.

- Mae Rheoliad 12 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol i Weinidogion Cymru.

### 4.2 Canllawiau

I gefnogi Awdurdodau Lleol i gynnal eu ADGPau, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dwy set o ganllawiau, sy'n cynnwys:

- **Canllawiau Statudol Gofal Plant (diwygiwyd Awst 2016) –** mae'r canllawiau hyn yn cefnogi gofynion 'Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016' a 'Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2008'.

- **Canllawiau Atodol: Canllawiau Statudol Gofal Plant (2016): Sicrhau Gofal Plant Digonol ac Asesiadau Digonolrwydd Plant (rhif cylchlythyr WGC 003 2021 WG21-28)** – a roddodd ofyniad ar Awdurdodau Lleol i adrodd ar y ffordd yr effeithiodd COVID-19 ar y cyflenwad o ofal plant, y galw am ofal plant a chynaliadwyedd darparwyr gofal plant presennol, yn ogystal â sut yr eir i'r afael â'r effeithiau hyn. Roedd y canllawiau atodol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried yn eu ADGPau Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, prosesau casglu a chofnodi data a Chynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021, a adwaenir fel y Cynllun Nanis. Roeddent hefyd yn nodi newidiadau mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer cwblhau'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) a'r Cynllun Gweithredu yn 2022 a'r

trefniadau adrodd dilynol; a chynnwys yr ADGP a'r Cynllun Gweithredu llawn yn 2022 yng ngoleuni pandemig COVID-19.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae defnyddioldeb y ddwy set o ganllawiau yn cael ei ystyried, a bydd yr ymatebion yn llywio'r gwaith o ddatblygu unrhyw ganllawiau yn y dyfodol i gefnogi'r broses asesu yn y dyfodol.

Cafodd yr ADGPau diweddaraf eu cyhoeddi gan Awdurdodau Lleol yn 2022.

### 4.3 Adolygiad Annibynnol Allanol

Yn 2022, comisiynwyd Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i wneud ymchwil i effeithiolrwydd trefniadau'r ADGP, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024. Nod yr ymchwil oedd:

- Gwneud gwaith ymchwil sylfaenol i nodi sut mae Awdurdodau Lleol yn defnyddio'r ADGPau wrth gynllunio a darparu cymorth i rieni a phlant.
- Crynhoi unrhyw heriau a wynebir gan Awdurdodau Lleol wrth gwblhau proses yr ADGP, argaeledd data a'r ffordd y cânt eu defnyddio i lywio ADGPau, a sut y caiff ADGPau eu trosglwyddo i ymarfer, gan gynnwys sut y maent yn dylanwadu ar bolisi a phrosesau gwneud penderfyniadau.
- Dod i gasgliadau o ran addasrwydd fformat presennol ADGPau a nodi argymhellion ar gyfer eu dyfodol, gan gynnwys sut y gellir cefnogi Awdurdodau Lleol yn well pan fyddant yn cynnal eu ADGPau yn y dyfodol.

Mae canfyddiadau'r ymchwil hon yn dangos nad yw proses bresennol yr ADGP yn addas at y diben a bod yr amser, yr ymdrech a'r adnoddau sydd eu hangen i'w llunio yn rhy feichus i Awdurdodau Lleol.

### 4.4 Gweithgor yr ADGP

Sefydlwyd Gweithgor yr ADGP i oruchwylio a datblygu'r adolygiad o'r ADGP gyda chynrychiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid sydd â

diddordeb mewn ADGPau.  Mae aelodau Gweithgor yr ADGP yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliad Cynrychiolwyr Ardal Cymru Gyfan ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar (Arweinwyr Gofal Plant Awdurdodau Lleol), sefydliad Yn uno gofal plant Cymru (consortiwm o bum partner gofal plant a chwarae), Chwarae Cymru, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Dechrau'n Deg, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar mewn Awdurdod Lleol, a Mentor Cymunedol Cymru Wrth-hiliol.

### 4.5 Is-grŵp Data

Mae Is-grŵp Data, gan gynnwys cynrychiolwyr o AWARE (Arweinwyr Gofal Plant Awdurdodau Lleol), wedi cael ei sefydlu er mwyn ystyried ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru helpu Awdurdodau Lleol i gynnal yr ADGP a sicrhau bod y data a gaiff eu casglu yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i Awdurdodau Lleol wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau'n lleol.

### 4.6 Digwyddiad Cyn Ymgynghori

Cynhaliwyd digwyddiad cyn ymgynghori ar 27 Mawrth 2025 gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn ceisio eu barn ar y canlynol:

- Cynnwys yr ADGP a'r gofynion sylfaenol ar ei gyfer.
- Mynediad at ddata a'u hargaeledd, gan gynnwys unrhyw heriau, bylchau a chymorth sydd ei angen.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys heriau, rhwystrau, arferion gorau a chymorth sydd ei angen.
- Y cylch cynllunio, rhyngddibyniaethau a phroses yr ADGP.

## 5. Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant – Materion a Chynigion

Mae gofal plant yn hanfodol er mwyn darparu sylfaen ar gyfer llesiant a datblygiad plant wrth gefnogi'r economi a chynhyrchiant cyffredinol y gweithlu. Mae'r tirlun wedi newid yn eithaf sylweddol ers i'r cylch diwethaf o ADGPau gael eu paratoi gan Awdurdodau Lleol. Gwnaed cryn fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, drwy ei rhaglenni gofal plant a ariennir, sydd wedi cael effaith ar y farchnad gofal plant.

Gan adeiladu ar yr argymhellion yng ngwaith ymchwil Ymchwil Arad a'r adborth a gafwyd gan randdeiliaid drwy weithgareddau ymgysylltu cyn ymgynghori, mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio sicrhau bod proses yr ADGP yn y dyfodol yn syml, yn effeithlon ac yn addas at y diben.

Caiff y rhesymeg dros bob cynnig ei hamlinellu'n fanylach yn yr adrannau canlynol.

Mae'r Rheoliadau diwygiedig arfaethedig yn Atodiad B. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys newidiadau wedi'u tracio fel y gall y darllenydd weld y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau yn hawdd. Bydd adborth o'r ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio datblygiad Canllawiau Statudol diwygiedig (mae'r Canllawiau Statudol cyfredol yn Atodiad A).

## 5.1 Y Cylch Cynllunio a'r Broses

### Materion

Nodwyd wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid nad yw'r ADGPau, yn eu fformat presennol, yn cyflawni eu diben gwreiddiol yn llawn, sef nodi unrhyw ddiffygion mewn darpariaeth gofal plant yn yr ardal a helpu Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â'r diffygion hyn, ac mae'r wybodaeth yn dyddio'n gyflym. Mae'r amser, yr ymdrech a'r adnoddau sydd eu hangen i lunio ADGPau yn rhy feichus i Awdurdodau Lleol.

### Y Cynnig

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ymgymryd ag ADGP bob pum mlynedd ynghyd â chynlluniau gweithredu blynyddol sy'n nodi camau gweithredu, blaenoriaethau a cherrig milltir er mwyn cynnal cryfderau ac ymdrin â diffygion a nodir yn yr ADGP ac adroddiadau cynnydd blynyddol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig bod cylch cynllunio'r ADGP yn aros yr un peth ond bydd y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (Atodiad B) a'r Canllawiau Statudol yn arwain at y canlynol:

- adroddiad byrrach a mwy cryno ar yr ADGP (ystyrir diwygio'r templed ar gyfer ffurflen yr ADGP sydd yn y Canllawiau Statudol);

- parhau gyda chynlluniau gweithredu ac adroddiadau cynnydd blynyddol;
- cyflwyno cyfarfodydd monitro blynyddol gyda Llywodraeth Cymru er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau mewn digonolrwydd gofal plant.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig bod y cylch cynllunio pum mlynedd yn darparu digon o gyfle i gryfhau cysylltiadau rhwng ADGPau a phrosesau asesu eraill ar lefel leol a chenedlaethol. Er enghraifft, bydd y broses yn cefnogi cysondeb â phrosesau cynllunio busnes presennol, megis Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, Cynlluniau Llesiant Lleol a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, gan gynnwys darpariaeth addysg a gofal plant.

**Manteision**

Byddai cael ADGP mwy cymesur ac wedi'i symleiddio bob pum mlynedd â chynlluniau gweithredu, adroddiadau cynnydd a chyfarfodydd monitro blynyddol yn arwain at y manteision canlynol:

- Byddai'n lleihau'r baich a'r defnydd o adnoddau i Awdurdodau Lleol o ran yr amser a gymerir i gwblhau'r asesiad.

- Mae cadw'r cylch pum mlynedd presennol yn sicrhau cysondeb effeithiol â'r amserlenni i Awdurdodau Lleol baratoi eu Cynlluniau Llesiant Lleol fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n lleihau achosion o ddyblygu mewn prosesau ac yn sicrhau y defnyddir adnoddau mewn ffordd fwy effeithlon. Er enghraifft, gallai'r ADGP gael ei gynnal ar yr un pryd â'r asesiad statudol o anghenion, sy'n llywio'r Cynllun Llesiant Lleol ac a all gasglu rhywfaint o'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer yr ADGP.

- Byddai cyflwyno Cynlluniau Gweithredu ac Adroddiadau Cynnydd Blynyddol yn golygu y gall Awdurdodau Lleol barhau i sicrhau bod darpariaeth gofal plant yn diwallu anghenion teuluoedd a phlant drwy nodi bylchau a mynd i'r afael â diffygion a nodwyd yn yr ADGP. Byddai'r Cynlluniau Gweithredu yn cefnogi Awdurdodau Lleol i flaenoriaethu adnoddau'n effeithiol, monitro cynnydd ac addasu strategaethau yn unol â galw newidiol.

- Byddai cyflwyno cyfarfodydd monitro blynyddol i drafod y gwaith o gynllunio camau gweithredu mewn perthynas â digonolrwydd gofal plant yn meithrin deialog barhaus rhwng Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru, gan hwyluso diweddariadau ac adborth amserol, hyrwyddo atebolrwydd, a sicrhau bod polisïau cenedlaethol yn parhau i fod yn ymatebol i dueddiadau ac anghenion mewn darpariaeth gofal plant.

Mae sicrhau y cymerir camau i gysoni ac integreiddio â pholisïau, rhaglenni a phrosesau asesu allweddol eraill ar lefel leol a chenedlaethol yn hanfodol o ran osgoi achosion o ddyblygu, lleihau baich a defnyddio adnoddau'n effeithlon. Mae'r rhain wedi cael eu hystyried wrth bennu'r cylch cynllunio a'r data i gefnogi'r gofynion Rheoliadol.

**Cwestiynau sydd wedi'u hanelu at Ymarferwyr a Llunwyr Polisïau yn bennaf (rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sydd naill ai'n ymwneud â chynnal yr ADGPau neu y mae eu maes polisi yn rhyngweithio â nhw e.e. trafnidiaeth, iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, y gymuned a'r economi)**

1. A fydd y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (yn Atodiad B) yn helpu i leihau'r baich ac yn darparu gwybodaeth ystyrlon ac amserol er mwyn galluogi Awdurdodau Lleol i asesu a rheoli digonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal?

2. A ydych yn cytuno â'r cynnig i gynnal cylch o bum mlynedd ar gyfer yr ADGP, gyda chynlluniau gweithredu ac adroddiadau cynnydd blynyddol?

3. A yw'r Rheoliadau yn caniatáu cysondeb digonol rhwng yr ADGP a phrosesau cynllunio eraill megis Cynlluniau Llesiant Lleol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg?

4. A ydych yn credu y bydd cyflwyno cyfarfodydd monitro blynyddol gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chynllunio camau gweithredu ADGPau Awdurdodau Lleol, a gaiff eu cynnwys fel rhan o'r Canllawiau Statudol (yn Atodiad A), yn ddefnyddiol er mwyn

monitro cynnydd ar gamau gweithredu a gymerwyd i sicrhau digonolrwydd a'r heriau sy'n effeithio ar y farchnad gofal plant?

5. Sut y gall gwybodaeth leol gael ei hymgorffori'n well ym mhroses yr ADGP er mwyn ei wneud yn fwy ystyrlon a chadarn?

## 5.2 Ffynonellau Data, Ffynonellau Gwybodaeth a Dadansoddi

### Materion

Mae dehongli a dadansoddi data yn eu fformat presennol yn anodd ac yn effeithio ar allu Awdurdodau Lleol i nodi bylchau mewn digonolrwydd gofal plant a llywio blaenoriaethau lleol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodir. Mae'r data sydd eu hangen i gefnogi'r gofynion Rheoliadol presennol yn heriol oherwydd anawsterau wrth gael gafael ar ffynonellau data, lefel y data (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is/Ward), y fformat y cânt eu cyflwyno ynddo, oes silff gyfyngedig y data, neu'r ffaith nad yw'r data ar gael. Mae heriau penodol wrth gasglu data i asesu'r galw am ofal plant. Yn ogystal, teimlwyd bod angen diffiniadau ynghylch, er enghraifft, mathau o ofal plant a gwasanaethau, hygyrchedd, rhestrau aros a gofal cofleidiol.

Mae adborth gan randdeiliaid wedi nodi bod yr arolygon sydd wedi'u cynnwys yn y Canllawiau Statudol presennol yn rhy hir ac y dylent fod yn fwy penodol er mwyn annog pobl i ymateb.

Ar hyn o bryd, mae'r dull a fabwysiedir wrth gynnal ADGPau yn amrywio ledled Cymru ac mae'r diffyg gwybodaeth gyson yn ei gwneud yn anodd creu cymariaethau cenedlaethol o ddarpariaeth gofal plant ar lefel Cymru gyfan. Mae goblygiadau hefyd o ran sicrhau bod polisïau a rhaglenni cenedlaethol yn adlewyrchu'r anghenion amrywiol am ofal plant yng Nghymru.

### Y Cynnig

Er mwyn mynd i'r afael â materion ynghylch argaeledd a chyfyngiadau rhywfaint o'r data, gan gynnwys y prosesau a gaiff eu cymhwyso, cynigir bod y Rheoliadau drafft diwygiedig (Atodiad B) yn ystyried gwybodaeth o

ystod eang o ffynonellau, gan ymgorffori gwybodaeth ansoddol a meintiol ac adeiladu ar systemau data presennol, arolygon a gwybodaeth leol.

Yn ogystal, cynigir bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i annog y defnydd o ddata presennol er mwyn datblygu mesurau procsi, gan gynnwys y defnydd o wybodaeth leol ac ystod eang o ffynonellau gwybodaeth er mwyn darparu asesiad mwy cadarn. Dangosyddion anuniongyrchol yw mesurau procsi y gellir eu defnyddio i asesu nodwedd y mae'n anodd ei mesur yn uniongyrchol. Yng nghyd-destun ADGPau, mae'n anodd mesur union nodweddion y cyflenwad gofal plant a'r galw amdano yn uniongyrchol oherwydd:

- natur wahanol y sector gofal plant a chwarae, gydag ystod eang o fathau o sefydliadau a threfniadau ariannu;

- cyfyngiadau cwmpas prosesau casglu data am ofal plant a chwarae, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth nad yw wedi'i hariannu'n gyhoeddus;

- natur hynod bersonol dewisiadau teuluoedd o ran y defnydd o ofal plant, a gaiff eu llywio gan batrymau gwaith, trefniadau anffurfiol gyda theulu a ffrindiau, anghenion penodol plant, ac agweddau a dewisiadau rhieni.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio archwilio safbwyntiau o ran pa gategorïau o ddata y mae angen rhagor o eglurder yn eu cylch mewn perthynas â diffiniadau er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a gaiff ei chofnodi yn yr ADGP yn gyson ac yn gymaradwy ledled Cymru. Mae Atodiad A o'r Canllawiau Statudol cyfredol (yn Atodiad A) yn cynnwys y diffiniadau o fathau ac is-fathau o ofal plant (yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol) ac mae Atodlen 3 yn crynhoi'r gwasanaethau sydd wedi'u cofnodi o dan y mathau a'r is-fathau o ofal plant ar hyn o bryd.

Cynigir bod yr wybodaeth a gaiff ei chofnodi yn yr ADGP yn cael ei chofnodi yn ôl y math o wasanaeth. Mae Atodlen 3 o'r Canllawiau Statudol cyfredol yn egluro pa wasanaethau y dylid eu cofnodi o dan bob math ac is-fath o ofal plant yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eglurhad o ran pa wasanaethau y byddai'n fuddiol ac yn ystyrlon eu cofnodi fel rhan o broses yr ADGP er

mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a gaiff ei chofnodi yn adlewyrchu'r tirlun presennol.

Un ffynhonnell sydd wedi cael ei defnyddio ar gyfer ADGPau blaenorol yw arolwg o rieni, a gydlynwyd gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol ar y cyd. Mae'r arolwg hwn yn targedu profiadau rhieni o gaffael gofal plant, unrhyw rwystrau a wynebwyd ac anghenion nas diwallwyd. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym yn cynnig y dylid adolygu'r arolwg o rieni er mwyn ei wneud yn haws ei ddefnyddio a sicrhau bod y cwestiynau'n berthnasol. Ystyrir a fyddai arolygon eraill yn ddefnyddiol i helpu Awdurdodau Lleol i gasglu data er mwyn asesu'r galw.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn ceisio canfod pa wybodaeth y dylid ei chasglu'n gyson, yr effaith yn lleol ac yn genedlaethol, gan gynnwys eglurder o ran diffiniadau a lefel y data sy'n ofynnol.

### Manteision

Bydd gwaith ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i nodi mesurau procsi perthnasol, egluro categorïau o ddata a diffiniadau, adeiladu ar wybodaeth leol a ffynonellau gwybodaeth eraill yn helpu i symleiddio'r broses a gwneud yr ADGP yn fwy ystyrlon a chadarn.

Gyda'i gilydd, disgwylir i'r newidiadau hyn fod o fudd i Awdurdodau Lleol drwy leihau'r baich gweinyddol a'r adnoddau sydd eu hangen i asesu'r cyflenwad gofal plant a'r galw amdano, gan arwain at gael gafael ar ddata/gwybodaeth fwy cadarn a dibynadwy i lywio blaenoriaethau lleol a mynd i'r afael â bylchau a nodwyd.

Yn ogystal, byddai'n caniatáu ar gyfer darlun mwy cynhwysfawr o'r sector gofal plant ledled Cymru er mwyn helpu i lywio polisïau ar lefel genedlaethol gan fod ADGPau yn symud oddi wrth fod yn seiliedig ar ddata yn unig, gyda mwy o ffocws ar wybodaeth leol mewn perthynas â'r materion, yr heriau a'r rhwystrau.

Byddai sicrhau bod yr wybodaeth a gaiff ei chasglu fel rhan o broses yr ADGP yn gyson yn hwyluso cymariaethau mwy cywir ac ystyrlon o ddarpariaeth gofal plant ar draws rhanbarthau gwahanol o Gymru. Byddai data cyson hefyd yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth ar lefel leol a chenedlaethol, gan sicrhau bod polisïau a rhaglenni yn cael eu teilwra i ddiwallu anghenion amrywiol ein cymunedau.

**Cwestiynau**

6. A fydd seilio'r ADGP ar wybodaeth o ystod eang o ffynonellau a gan ddefnyddio mesurau procsi yn helpu i ddarparu asesiad mwy cadarn? (Dangosyddion anuniongyrchol yw mesurau procsi y gellir eu defnyddio i asesu nodwedd y mae'n anodd ei mesur yn uniongyrchol).

7. Pa ddiffiniadau perthnasol y gellid eu gwella a/neu pa dempledi y gellid eu cynnwys yn y Canllawiau Statudol (yn Atodiad A) er mwyn helpu i sicrhau cysondeb wrth ddehongli a dadansoddi data?

8. A yw'r gwasanaethau gofal plant a gaiff eu cofnodi yn erbyn y mathau o ofal plant yn Atodlen 3 o'r Canllawiau Statudol cyfredol (yn Atodiad A) yn adlewyrchu'r ffordd y caiff gwasanaethau eu dehongli yn y tirlun presennol?

9. A yw'r arolygon sydd wedi'u cynnwys yn Atodlenni 4, 5 a 6 o'r Canllawiau Statudol cyfredol (yn Atodiad A) yn addas at y diben yn eich barn chi?

10. Pa arolygon neu ddulliau ychwanegol y byddech yn eu hargymell i helpu Awdurdodau Lleol i gasglu data er mwyn asesu'r galw am ofal plant yn fwy effeithiol?

11. A oes gwelliannau pellach y gellid eu gwneud yn eich barn chi i leihau'r baich gweinyddol a'r adnoddau sydd eu hangen i goladu data a gwybodaeth er mwyn asesu'r cyflenwad gofal plant a'r galw amdano?

12. A fyddai cyflwyno dull mwy safonedig o goladu a chofnodi gwybodaeth (er enghraifft, drwy dempledi) yn ddefnyddiol i Awdurdodau Lleol wrth ymgymryd â phroses yr ADGP yn eich barn chi?

### 5.3 Gofynion Rheoliadol a Dogfennaeth Ategol

**Y Cynnig**

O ganlyniad i'r materion uchod a'r camau gweithredu arfaethedig, bydd angen diwygio'r Rheoliadau. Fel y cyfryw, mae'r canlynol wedi'u darparu:

- Atodiad B - Rheoliadau drafft diwygiedig
- Atodiad C - Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn rhanddeiliaid am y Rheoliadau diwygiedig er mwyn sicrhau bod ffynonellau data a gwybodaeth ar gael i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn gallu cyflawni eu dyletswydd statudol.

**Cwestiynau**

13. A ydych yn cytuno bod y diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (yn Atodiad B) yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ddigonol?

14. A ydych yn cytuno bod y manylion isod yn darparu digon o eglurder o ran y gwasanaethau a gaiff eu cofnodi mewn perthynas â'r Atodlen 'Materion i'w cynnwys yn yr asesiad', sef atodlen 2(i) o'r Rheoliadau diwygiedig arfaethedig (yn Atodiad B) (y bwriad yw cynnwys hyn yn y Canllawiau Statudol)?:
    - oriau annodweddiadol;
    - gofal llawn amser a rhan amser;
    - dydd llawn;
    - YB/YP;
    - cofleidiol (yb/yp/cinio);
    - gwyliau;
    - yn ystod y tymor.

15. O dan yr Atodlen 'Materion i'w cynnwys yn yr asesiad' 2(l) (yn Atodiad B), a yw'r ffactorau canlynol yn darparu digon o eglurder o ran yr wybodaeth y dylai Awdurdodau Lleol ei hystyried mewn perthynas â galw (y bwriad yw cynnwys hyn yn y Canllawiau Statudol):
    - dewisiadau rhieni o ran y math o wasanaeth a'i ystod;

- yr adegau pan fydd angen gofal plant;
- mynediad at ddarpariaeth sy'n cefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a gofal arbenigol oherwydd anabledd;
- mynediad at ofal plant a gymorthdelir gan y wladwriaeth;
- nifer y lleoedd gofal plant sydd eu hangen ar gyfer plant hyd at 12 oed, wedi'u dadansoddi yn ôl ystod oedran a math;
- gwasanaethau gofal plant Cymraeg sydd eu hangen;
- gwasanaethau gofal plant ieithoedd eraill sydd eu hangen;
- mynediad at ddarpariaeth sy'n cynnig elfen costau gofal plant Credyd Treth Gwaith neu elfen costau plant Credyd Cynhwysol.

16. A oes unrhyw heriau neu rwystrau posibl rydych yn eu rhagweld i Awdurdodau Lleol wrth roi'r Rheoliadau diwygiedig (yn Atodiad B) ar waith?

17. A yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft (yn Atodiad C) yn crynhoi canlyniadau posibl y diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (yn Atodiad B)?

## 5.4 Asesiad Effaith Integredig Drafft

Mae Asesiad Effaith Integredig drafft llawn wedi cael ei gynnal mewn perthynas â'r adolygiad o'r ADGP. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi rhai rhannau o'r Asesiad Effaith Integredig sydd ar gael yn Atodiad D.

**Cwestiynau:**

18. A yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft (Atodiad D) yn cwmpasu'r effaith ar blant, teuluoedd, y rhai sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol a phobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn ddigonol yn eich barn chi (gan gynnwys tystiolaeth y dylid ei hystyried yn eich barn chi)? (Y nodweddion gwarchodedig yw: Oedran; Anabledd; Ailbennu rhywedd; Priodas a phartneriaeth sifil; Hil; Crefydd neu gred; Rhyw; a Chyfeiriadedd rhywiol)?

19. Sut y gellir llunio neu ddiwygio'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (yn Atodiad B) fel na fyddent yn cael effeithiau andwyol,

neu fel y byddent yn cael llai o effeithiau andwyol ar bobl â nodweddion gwarchodedig?

## 5.5 Canllawiau Statudol

O ganlyniad i unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau, bydd angen diweddaru'r Canllawiau Statudol cyfredol (yn Atodiad A). Er mwyn sicrhau bod y Canllawiau Statudol yn adlewyrchu adborth rhanddeiliaid, caiff y ddogfen ddiwygiedig ei datblygu yn dilyn yr ymarfer ymgynghori. Byddwn yn parhau i weithio gyda Gweithgor yr ADGP i sicrhau bod y Canllawiau Statudol yn cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol i helpu Awdurdodau Lleol i gynnal eu ADGPau.

### Materion

Canfu Ymchwil Arad fod Awdurdodau Lleol yn cwestiynu diben yr ADGP, a'u bod yn ei ystyried fel mwy o ofyniad gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na phroses sy'n cefnogi eu gwaith. Ychydig iawn o enghreifftiau, os o gwbl, a gynigiwyd gan Awdurdodau Lleol o ran sut y caiff yr ADGPau eu defnyddio i lywio neu gyfeirio eu gwaith i gynllunio darpariaeth gofal plant ar lefel weithredol. Mae Llywodraeth Cymru, drwy'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ac ystod o ffynonellau gwybodaeth cenedlaethol eraill, eisoes yn gallu cael gafael ar ddata gofal plant, felly cynigir bod strwythur a fformat yr ADGPau yn canolbwyntio ar wybodaeth leol sy'n berthnasol i ardal pob awdurdod lleol ac sy'n ychwanegu gwerth at y data a ddelir yn genedlaethol ar hyn o bryd, e.e. rhwystrau a gwybodaeth leol.

Mae'r Canllawiau Statudol cyfredol (yn Atodiad A) yn cynnwys amrywiaeth o holiaduron i gasglu gwybodaeth gan randdeiliaid, er enghraifft rhieni a darparwyr anghofrestredig. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod yr holiadur i rieni'n rhy hir, gan arwain at gyfraddau ymateb isel. Roeddent hefyd yn ei chael hi'n anodd casglu gwybodaeth am ddarpariaeth anghofrestredig ac yn teimlo bod angen mwy o arweiniad o ran pa fathau o ddarpariaeth anghofrestredig y dylid eu cynnwys yn yr ADGP.

## Y Cynnig

Fel y nodir yn Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016, prif ddiben yr ADGP yw cefnogi Awdurdodau Lleol i ymgymryd â'u dyletswydd statudol i sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol bosibl, fod gofal plant yn cael ei ddarparu sy'n ddigonol i fodloni gofynion rhieni/gofalwyr yn eu hardal fel y gallant ddechrau swydd neu barhau yn eu swydd; neu ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant y gellid disgwyl yn rhesymol y byddai'n eu helpu i gael swydd. Mae'r ADGPau yn galluogi Llywodraeth Cymru i gael gwybodaeth bellach am y tueddiadau, y materion a'r heriau ledled Cymru, gan ychwanegu gwerth at yr wybodaeth a ddelir yn genedlaethol a sicrhau bod polisïau a rhaglenni yn addas at y diben. Cynigir bod y Canllawiau Statudol yn cael eu diwygio er mwyn sicrhau bod diben yr ADGP yn glir.

Cynigir hefyd fod yr adrannau penodol yn y Canllawiau Statudol yn cael eu hadolygu er mwyn ystyried newidiadau i'r holiadur i rieni a darparu rhagor o eglurder o ran pa ddata/gwybodaeth ddylai gael eu casglu/ei chasglu am ddarpariaeth anghofrestredig er mwyn llywio'r ADGP.

## Manteision

Byddai amlinellu diben yr ADGP yn y Canllawiau Statudol yn rhoi cyfarwyddyd clir i Awdurdodau Lleol o ran amcanion yr ADGP y gellir ei ddefnyddio i lywio strategaethau gofal plant effeithiol ar lefel leol a chenedlaethol.

Bydd adolygu adrannau penodol a darparu eglurder o ran y data a'r wybodaeth y dylid eu casglu, er enghraifft mewn perthynas â darparwyr anghofrestredig, yn rhoi darlun mwy llawn o gyflenwad a galw ac yn sicrhau dull mwy unffurf o gasglu data, gan helpu i nodi bylchau mewn darpariaeth a meysydd y mae angen eu cefnogi.

## Cwestiynau

20. A oes unrhyw agweddau ar y Canllawiau Statudol cyfredol (yn Atodiad A) sy'n aneglur ar hyn o bryd yn eich barn chi?

21. A fyddai canllawiau cliriach ar ddarparwyr anghofrestredig yn gwella prosesau casglu data yn eich barn chi?

22. Pa fathau o ddarpariaeth gofal plant anghofrestredig ddylai gael eu cynnwys yn yr ADGP yn eich barn chi?

23. A yw'r Canllawiau Statudol cyfredol (yn Atodiad A) yn caniatáu i ddata gael eu rhannu'n briodol ac yn ddienw yn eich barn chi (h.y. rhannu data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth gan Arolygiaeth Gofal Cymru)?

## 5.6 Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Anabledd

### Mater

Mae'r Rheoliadau cyfredol yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i gynnwys nifer y lleoedd sydd wedi'u llenwi ac sydd eu hangen ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu y mae angen gofal arbenigol arnynt oherwydd anabledd. Mae rhanddeiliaid wedi ein hysbysu ei bod yn anodd asesu'r galw am leoedd ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a/neu anabledd, ac argaeledd lleoedd o'r fath, gan y gall anghenion pob plentyn fod yn unigoledig ac yn gymhleth iawn. Mae'r amrywiaeth hon yn ei gwneud yn anodd i Awdurdodau Lleol fesur union nifer y lleoedd sydd eu hangen a chynllunio'n unol â hynny.

### Y Cynnig

Cynigir y dylai'r Rheoliadau diwygiedig gynnwys disgrifiad naratif o ddarparwyr sy'n gallu cefnogi plant sydd ag ADY a/neu anabledd yn seiliedig ar ddata'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn ogystal â gwybodaeth leol.  Ar gyfer galw, cynigir bod yr Awdurdodau Lleol yn darparu amcangyfrif gan ddefnyddio ystod o ffynonellau megis data a gesglir o Gynlluniau Datblygu Unigol a gyflwynir ar nifer y plant yn yr ardal sydd ag ADY a gwybodaeth megis iechyd ac addysg er mwyn llywio'r asesiad.

**Cwestiwn**

24. A fydd y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (yn Atodiad B) yn helpu Awdurdodau Lleol i asesu gofal plant digonol ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a/neu anabledd yn eich barn chi?

## 5.7 Y Gymraeg

O dan Safonau'r Gymraeg, mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswyddau i ystyried y Gymraeg wrth inni ddatblygu polisïau ac ymgynghori ar gynigion polisi.

Mae'r Rheoliadau cyfredol yn gofyn am i ADGPau gynnwys nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u llenwi ac sydd eu hangen.

**Y Cynnig**

Yn unol â'r Bil, awgrymir bod Awdurdodau Lleol yn rhoi disgrifiad naratif inni sy'n adeiladu ar amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth i ddisgrifio'r canlynol: capasiti gwasanaethau, yn unol â'r categorïau Cymraeg; nifer y plant y darperir ar eu cyfer ar hyn o bryd; ac asesiad o newid yn nifer y plant sy'n defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg. Cynigir hefyd y dylai'r ADGPau amlinellu gwasanaethau Cymraeg sydd eu hangen gan ddefnyddio ystod o ffynonellau gwybodaeth yn cynnwys gwybodaeth ansoddol a meintiol.

Caiff y Canllawiau Statudol cyfredol eu diweddaru er mwyn darparu awgrymiadau o ran pa ffynonellau gwybodaeth y gellid eu defnyddio i lywio'r asesiad hwn (e.e. y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, arolwg i rieni, tueddiadau poblogaeth, amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, gwybodaeth leol, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ac ati).

### 5.8 Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, mae cam gweithredu penodol i Awdurdodau Lleol ymgysylltu â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol er mwyn nodi sut y gellir cofnodi llais a phrofiad bywyd pobl yn y cymunedau hyn yn well fel rhan o'r ADGP.

**Cwestiwn**

25. Pa gymorth fyddai'n ddefnyddiol i helpu Awdurdodau Lleol i ymgysylltu â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (gan gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr)?

### 5.9 Barn gyffredinol am yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant

26. Pa wybodaeth neu ddata sydd gan sefydliadau cynrychioliadol gofal plant a allai fod yn ddefnyddiol er mwyn bodloni gofynion Rheoliadol yr ADGP?

| |
|---|
| |

## 6. Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad sydd wedi'i hanelu Ymarferwyr a Llunwyr Polisïau yn bennaf (rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sydd naill ai'n ymwneud â chynnal yr ADGPau neu y mae eu maes polisi yn rhyngweithio â nhw e.e. trafnidiaeth, iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, y gymuned a'r economi)

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

1. A fydd y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (yn Atodiad B) yn helpu i leihau'r baich ac yn darparu gwybodaeth ystyrlon ac amserol er mwyn galluogi Awdurdodau Lleol i asesu a rheoli digonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Byddant | | Na fyddant | | Ddim yn berthnasol | |

Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

| |
|---|
| |

2. A ydych yn cytuno â'r cynnig i gynnal cylch o bum mlynedd ar gyfer yr ADGP, gyda chynlluniau gweithredu ac adroddiadau cynnydd blynyddol?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | | Ddim yn berthnasol | |

Os gwnaethoch ateb 'ydw', beth yw'r rhesymau dros eich ateb. Os gwnaethoch ateb 'nac ydw', beth fyddai'n well gennych?

| |
|---|
| |

3. A yw'r Rheoliadau yn caniatáu cysondeb digonol rhwng yr ADGP a phrosesau cynllunio eraill megis Cynlluniau Llesiant Lleol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydyn | | Nac ydyn | | Ddim yn berthnasol | |

Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

4. A ydych yn credu y bydd cyflwyno cyfarfodydd monitro blynyddol gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chynllunio camau gweithredu ADGPau Awdurdodau Lleol, a gaiff eu cynnwys fel rhan o'r Canllawiau Statudol (yn Atodiad A), yn ddefnyddiol er mwyn monitro cynnydd ar gamau gweithredu a gymerwyd i sicrhau digonolrwydd a'r heriau sy'n effeithio ar y farchnad gofal plant?

Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn berthnasol ☐

Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

5. Sut y gall gwybodaeth leol gael ei hymgorffori'n well ym mhroses yr ADGP er mwyn ei wneud yn fwy ystyrlon a chadarn?

6. A fydd seilio'r ADGP ar wybodaeth o ystod eang o ffynonellau a gan ddefnyddio mesurau procsi yn helpu i ddarparu asesiad mwy cadarn? (Dangosyddion anuniongyrchol yw mesurau procsi y gellir eu defnyddio i asesu nodwedd y mae'n anodd ei mesur yn uniongyrchol).

Bydd ☐ Na fydd ☐ Ddim yn berthnasol ☐

Beth yw'r rhesymau dros eich ateb? Os gwnaethoch ateb 'na fydd', beth rydych yn ei gynnig?

7. Pa ddiffiniadau perthnasol y gellid eu gwella a/neu pa dempledi y gellid eu cynnwys yn y Canllawiau Statudol (yn Atodiad A) er mwyn helpu i sicrhau cysondeb wrth ddehongli a dadansoddi data?

8. A yw'r gwasanaethau gofal plant a gaiff eu cofnodi yn erbyn y mathau o ofal plant yn Atodlen 3 o'r Canllawiau Statudol cyfredol (yn Atodiad A) yn adlewyrchu'r ffordd y caiff gwasanaethau eu dehongli yn y tirlun presennol?

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐ Ddim yn berthnasol ☐

Os nad ydyn, beth yw'r rhesymau dros eich ateb a beth rydych yn ei gynnig?

9. A yw'r arolygon sydd wedi'u cynnwys yn Atodlenni 4, 5 a 6 o'r Canllawiau Statudol cyfredol (yn Atodiad A) yn addas at y diben yn eich barn chi?

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐ Ddim yn berthnasol ☐

Os nad ydyn, beth yw'r rhesymau dros eich ateb a beth rydych yn ei gynnig?

10. Pa arolygon neu ddulliau ychwanegol y byddech yn eu hargymell i helpu Awdurdodau Lleol i gasglu data er mwyn asesu'r galw am ofal plant yn fwy effeithiol?

11. A oes gwelliannau pellach y gellid eu gwneud yn eich barn chi i leihau'r baich gweinyddol a'r adnoddau sydd eu hangen i goladu data a gwybodaeth er mwyn asesu'r cyflenwad gofal plant a'r galw amdano?

12. A fyddai cyflwyno dull mwy safonedig o goladu a chofnodi gwybodaeth (er enghraifft, drwy dempledi) yn ddefnyddiol i Awdurdodau Lleol wrth ymgymryd â phroses yr ADGP yn eich barn chi?

Byddai ☐ Na fyddai ☐ Ddim yn berthnasol ☐

Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

13. A ydych yn cytuno bod y diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (yn Atodiad B) yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ddigonol?

Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn berthnasol ☐

Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

14. A ydych yn cytuno bod y manylion isod yn darparu digon o eglurder o ran y gwasanaethau a gaiff eu cofnodi mewn perthynas â'r Atodlen 'Materion i'w cynnwys yn yr asesiad', sef atodlen 2(i) o'r Rheoliadau diwygiedig arfaethedig (yn Atodiad B) (y bwriad yw cynnwys hyn yn y Canllawiau Statudol)?:

- oriau annodweddiadol;
- gofal llawn amser a rhan amser;
- dydd llawn;
- YB/YP
- cofleidiol (yb/yp/cinio);
- gwyliau;
- yn ystod y tymor.

Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn berthnasol ☐

Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

15. O dan yr Atodlen 'Materion i'w cynnwys yn yr asesiad' 2(l) (yn Atodiad B), a yw'r ffactorau canlynol yn darparu digon o eglurder o ran yr wybodaeth y dylai Awdurdodau Lleol ei hystyried mewn perthynas â galw (y bwriad yw cynnwys hyn yn y Canllawiau Statudol):

- dewisiadau rhieni o ran y math o wasanaeth a'i ystod;
- yr adegau pan fydd angen gofal plant;
- mynediad at ddarpariaeth sy'n cefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a gofal arbenigol oherwydd anabledd;
- mynediad at ofal plant a gymorthdelir gan y wladwriaeth;
- nifer y lleoedd gofal plant sydd eu hangen ar gyfer plant hyd at 12 oed, wedi'u dadansoddi yn ôl ystod oedran a math;
- gwasanaethau gofal plant Cymraeg sydd eu hangen;
- gwasanaethau gofal plant ieithoedd eraill sydd eu hangen;
- mynediad at ddarpariaeth sy'n cynnig elfen costau gofal plant Credyd Treth Gwaith neu elfen costau plant Credyd Cynhwysol.

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐ Ddim yn berthnasol ☐

Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

| |
|---|
| |

16. A oes unrhyw heriau neu rwystrau posibl rydych yn eu rhagweld i Awdurdodau Lleol wrth roi'r Rheoliadau diwygiedig (yn Atodiad B) ar waith?

Oes ☐ Nac oes ☐ Ddim yn berthnasol ☐

Os gwnaethoch ateb 'oes', beth yw eich awgrymiadau ar gyfer gwella cynnwys neu strwythur y Rheoliadau drafft diwygiedig (yn Atodiad B) er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol?

| |
|---|
| |

17. A yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft (yn Atodiad C) yn crynhoi canlyniadau posibl y diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (yn Atodiad B)?

Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn berthnasol ☐

Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

18. A yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft (Atodiad D) yn cwmpasu'r effaith ar blant, teuluoedd, y rhai sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol a phobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn ddigonol yn eich barn chi (gan gynnwys tystiolaeth y dylid ei hystyried yn eich barn chi)? (Y nodweddion gwarchodedig yw: Oedran; Anabledd; Ailbennu rhywedd; Priodas a phartneriaeth sifil; Hil; Crefydd neu gred; Rhyw; a Chyfeiriadedd rhywiol)?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydy | ☐ | Nac ydy | ☐ | Ddim yn berthnasol | ☐ |

Os gwnaethoch ateb 'nac ydy', a oes newidiadau ychwanegol y gellid eu gwneud i'r rheoliadau er mwyn gwella'r effaith ar blant, teuluoedd, y rhai sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol a phobl sydd â nodweddion gwarchodedig?

19. Sut y gellir llunio neu ddiwygio'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (yn Atodiad B) fel na fyddent yn cael effeithiau andwyol, neu fel y byddent yn cael llai o effeithiau andwyol ar bobl â nodweddion gwarchodedig?

20. A oes unrhyw agweddau ar y Canllawiau Statudol cyfredol (yn Atodiad A) sy'n aneglur ar hyn o bryd yn eich barn chi?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Oes | ☐ | Nac oes | ☐ | Ddim yn berthnasol | ☐ |

Os gwnaethoch ateb ‘oes’, beth yw'r rhesymau dros eich ateb? Os gwnaethoch ateb 'nac oes', pa ddiwygiadau y gellid eu gwneud er mwyn helpu Awdurdodau Lleol i gynllunio, sicrhau a/neu ddarparu gwasanaethau gofal plant effeithiol a digonol yn well gyda'r nod o ddiwallu anghenion rhieni/gofalwyr yn eu hardaloedd?

21. A fyddai canllawiau cliriach ar ddarparwyr anghofrestredig yn gwella prosesau casglu data yn eich barn chi?

Byddai ☐ Na fyddai ☐ Ddim yn berthnasol ☐

Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

| |
|---|
| |

22. Pa fathau o ddarpariaeth gofal plant anghofrestredig ddylai gael eu cynnwys yn yr ADGP yn eich barn chi?

| |
|---|
| |

23. A yw'r Canllawiau Statudol cyfredol (yn Atodiad A) yn caniatáu i ddata gael eu rhannu'n briodol ac yn ddienw yn eich barn chi (h.y. rhannu data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth gan Arolygiaeth Gofal Cymru)?

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐ Ddim yn berthnasol ☐

Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

| |
|---|
| |

24. A fydd y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (yn Atodiad B) yn helpu Awdurdodau Lleol i asesu gofal plant digonol ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a/neu anabledd yn eich barn chi?

Byddant ☐ Na fyddant ☐ Ddim yn berthnasol ☐

Os gwnaethoch ateb ‘na fyddant’, beth yw'r rhesymau dros eich ateb a beth rydych yn ei gynnig?

| |
|---|
| |

25. Pa gymorth fyddai'n ddefnyddiol i helpu Awdurdodau Lleol i ymgysylltu â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (gan gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr)?

26. Pa wybodaeth neu ddata sydd gan sefydliadau cynrychioliadol gofal plant a allai fod yn ddefnyddiol er mwyn bodloni gofynion Rheoliadol yr ADGP?

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai’r 'Adolygiad o Ddyletswydd Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP)' yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi’n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi’n credu y gall y polisi arfaethedig 'Adolygiad o Ddyletswydd Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP)' gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Mae'n debygol y caiff ymatebion i ymgyngoriadau eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.  Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

## 7. Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad ar gyfer Rhieni/Gofalwyr (darpar rieni/gofalwyr a rhai presennol)

Rydym yn cynnal ymgynghoriad ar yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP), sy'n helpu Awdurdodau Lleol i sicrhau bod digon o ofal plant ar gael yn eu hardal, i'r graddau y bo'n rhesymol bosibl.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym yn ceisio eich adborth i helpu i sicrhau bod yr ADGP yn cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol i alluogi Awdurdodau Lleol i gynllunio ar gyfer gofal plant yn eu hardal.

Mae croeso ichi ymateb i'r ymgynghoriad llawn os hoffech wneud hynny, ond byddem yn ddiolchgar pe gallech gwblhau'r holiadur byr isod.

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

1. A ydych wedi bod yn rhan o ddarparu adborth fel rhan o ymgynghoriad yr ADGP a gynhaliwyd gan eich Awdurdod Lleol?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os gwnaethoch ateb 'Ydw', beth oedd eich barn am y broses? Os gwnaethoch ateb 'Nac ydw', pam na wnaethoch gymryd rhan?

| |
|---|
| |

2. Pa wybodaeth sy'n ddefnyddiol i'ch cefnogi wrth chwilio am ofal plant yn eich barn chi?

3. Pa fath o ofal plant y byddech fwyaf tebygol o'i ddefnyddio yn seiliedig ar oedrannau eich plant?

4. Sut y gellir datblygu'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (Atodiad B) a'r Canllawiau Statudol (Atodiad A) er mwyn gwella hawliau plant neu leihau unrhyw effeithiau negyddol arnynt[1]?

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r 'Adolygiad o Ddyletswydd Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP)' yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig 'Adolygiad o Ddyletswydd Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP)' gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

[1] Amlinellir Hawliau Plant yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn – cliciwch yma

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Mae'n debygol y caiff ymatebion i ymgyngoriadau eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐

## 8. Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad ar gyfer Darparwyr Gofal Plant (darpar ddarparwyr a rhai presennol)

Rydym yn cynnal ymgynghoriad ar yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP), sy'n helpu Awdurdodau Lleol i sicrhau bod digon o ofal plant ar gael yn eu hardal, i'r graddau y bo'n rhesymol bosibl.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym yn ceisio eich adborth i helpu i sicrhau bod yr ADGP yn cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol i alluogi Awdurdodau Lleol i gynllunio ar gyfer gofal plant yn eu hardal.

Mae croeso ichi ymateb i'r ymgynghoriad llawn os hoffech wneud hynny, ond byddem yn ddiolchgar pe gallech gwblhau'r holiadur byr isod.

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

1. A ydych wedi bod yn rhan o ddarparu adborth fel rhan o ymgynghoriad yr ADGP a gynhaliwyd gan eich Awdurdod Lleol?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os gwnaethoch ateb 'Ydw', beth oedd eich barn am y broses? Os gwnaethoch ateb 'Nac ydw', pam ddim?

2. Pa wybodaeth y byddai'n ddefnyddiol ei chynnwys yn yr ADGP i'ch helpu i sefydlu/datblygu eich busnes gofal plant yn eich barn chi?

3. Sut y gellir datblygu'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau (Atodiad B) a'r Canllawiau Statudol (Atodiad A) er mwyn gwella hawliau plant neu leihau unrhyw effeithiau negyddol arnynt[2]?

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r 'Adolygiad o Ddyletswydd Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP)' yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig 'Adolygiad o Ddyletswydd Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP)' gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

---

[2] Amlinellir Hawliau Plant yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn – cliciwch yma

Mae'n debygol y caiff ymatebion i ymgyngoriadau eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐